



**ADRODDIAD BLYNYDDOL
AR GYDRADDOLDEB**

ANNUAL EQUALITY REPORT

2024



Coleg
Llandrillo

Coleg
Menai

Coleg
**Meirion
Dwyfor**

Busnes@
LlandrilloMenai

CYNNWYS / CONTENTS

CENHADAETH A GWERTHOEDD Y GRŴP	2
THE GRŴP'S MISSION AND VALUES	2
CYFLWYNIAD	3
INTRODUCTION	3
STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB 2019-24: ADOLYGU CYNNYDD	5
EQUALITY STRATEGY AND ACTION PLAN 2019-24: REVIEW OF PROGRESS	5
Nod Cydraddoldeb 1: Datblygu arlwy gyffrous a chynhwysol 6	
Equality Aim 1: Develop an exciting and inclusive offer	6
Nod Cydraddoldeb 2: Darparu profiadau cynhwysol a theg i ddysgwyr 8	
Equality Aim 2: Provide an inclusive and fair learner experience	8
Nod Cydraddoldeb 3: Creu amgylchedd gwaith cadarnhaol	13
Equality Aim 3: Create a positive working environment	13
Nod Cydraddoldeb 4: Gwella'r amgylchedd ffisegol ar ein holl gampysau 13	
Equality Aim 4: Improve the physical environment across all of our campuses	16
CYFRADDAU LLWYDDO ADDYSG BELLACH	16
FURTHER EDUCATION SUCCESS RATES	17
Y COLEGAU	23
THE COLLEGES	23
Business@ (Coleg Glynllifon)	23
Coleg Llandrillo	23
Coleg Meirion-Dwyfor 19	23
Coleg Menai	23
CYFRADDAU LLWYDDO DYSGU SEILIEDIG AR WAITH	25
WORK BASED LEARNING SUCCESS RATES	25
CYFRADDAU LLWYDDO ADDYSG UWCH	27
HE SUCCESS RATES	27
CYRCHFANNAU DYSGWYR AB LLAWN AMSER (2021-22)	29
FULL TIME FE LEARNER DESTINATIONS (2021-22)	29
PROFFIL DYSGWYR	30
LEARNER PROFILE	30
CIPOLWG AR STAFF Y GRŴP	34
GRŴP STAFF AT A GLANCE	34
THE GRŴP BOARD OF GOVERNORS	35
LLYWODRAETHWYR Y GRŴP	35
RECRUITMENT AT THE GRŴP	37
RECRUITMENT AT THE GRŴP	37

CENHADAETH A GWERTHOEDD Y GRŴP

THE GRŴP'S MISSION AND VALUES



Cyhoeddodd y Grŵp [Gynllun Strategol newydd yn 2022](#). Amlinellar darluniad uchod brif flaenoriaethau'r Grŵp yn ystod y cyfnod hyd at 2027. Mae'r Grŵp yn ymatebol i'r angen i ddatblygu cynlluniau ac i weithio ym maes cydraddoldeb, ac er bod ein cynllun cydraddoldeb strategol wedi'i lunio mewn modd sy'n cyd-fynd â'r cynllun strategol blaenorol, mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo'n adlewyrchu gofynion y strategaeth newydd.

The Grŵp published a [new Strategic Plan in 2022](#). The illustration above outlines the Grŵp's main priorities during the period up to 2027. The Grŵp is responsive in its need to develop initiatives and work in the field of equality, and although our strategic equality plan has been designed to match the previous strategic plan, the work that is ongoing reflects the requirements of the new strategy.

CYFLWYNIAD

INTRODUCTION

Croeso i adroddiad blynyddol Grŵp Llandrillo Menai ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ddyletswydd ar y Grŵp i gyhoeddi adroddiad ar ei gynnydd mewn meysydd sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Bydd yr adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a gynhaliwyd i wella cydraddoldeb yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24.

Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Grŵp Llandrillo Menai yn amlinellu ein hymrwymiad i ddarparu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol i'r staff a'r dysgwyr, lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys, a lle mae'r dysgwyr yn cael cefnogaeth i gyflawni a rhagori.

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol, ond mae cryn dipyn eisoes wedi cael ei gyflawni. Mae cyflawniadau diweddar yn cynnwys:

1. Mewn ymgynghoriad â staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-27.
2. Datblygu pecyn tiwtorialau i gynorthwyo tiwtoriaid y Grŵp i sefydlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y rhaglen diwtorialau. Mae'r adnoddau a'r cynlluniau sydd wedi'u datblygu ar bynciau a digwyddiadau'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn cynnwys Mis Hanes Pobl Ddu, Diwrnod Stephen Lawrence, Mis Hanes LHDTTC+ a Diwrnod Gwelededd Trawsrywiol.
3. Ffurio partneriaeth â'r Black Leadership Group i gyflwyno hyfforddiant gwrth-hiliaeth i reolwyr canol a gweithredol.
4. Datblygu a darparu grwpiau anffurfiol i gefnogi staff o'r mwyafrif byd-eang a chymunedau LHDTTC+ a niwroamrywiol.
5. Defnyddio asiantaeth annibynnol allanol i ddatblygu gwerthoedd newydd i'r Grŵp mewn ymgynghoriad â staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol. Mae'r gwerthoedd a nodwyd yn cynnwys Parch, Cydraddoldeb, Gonestrwydd, Ymddiriedaeth Tegwch ac Uchelgais.

Rydym wedi ceisio bod mor fanwl â phosibl wrth gyflwyno'r data, ond lle mae'r ffigurau'n ddigon isel i allu adnabod unigolion rydym wedi categorioeddio'r grwpiau.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob math o wahaniaethau yn ogystal ag

Welcome to Grŵp Llandrillo Menai's annual report on equality and diversity. The Grŵp has a duty under the Equality Act 2010 to publish a report on our progress on equality issues. This annual report will focus on activities undertaken to enhance equality throughout the 2023-24 academic year.

Grŵp Llandrillo Menai's Equality Strategy and Action Plan outlines our commitment to provide an inclusive working and learning environment for both staff and learners, a place staff feel welcome and included, and a place learners are supported to achieve and to excel.

Our plan is ambitious but a great deal has already been achieved. Recent achievements include:

1. The development and consultation of a new Strategic Equality Plan for 2024-27 with staff, students and stakeholders.
2. The development of a Grŵp wide group tutorial package to support tutors to embed equality, diversity and inclusion into the tutorial programme. Resources and session plans have been developed on a number of equality related events and subjects including Black History Month, Stephen Lawrence Day, LGBTQ+ History Month and Trans Visibility Day.
3. Partnering with the Black Leadership Group to deliver anti racism training to all middle and operational managers
4. The development and delivery of informal staff support groups to support individuals from global majority, LGBTQ+ and neurodiverse communities.
5. Consultation and development of new Grŵp Values undertaken by an independent external agency with staff, students and external stakeholders. Values identified include Respect, Equality, Honesty, Trust, Fairness and Ambition.

We have aimed to be as detailed as possible in presenting the data, but where figures are low enough to identify individuals, we have grouped categories accordingly.

Grŵp Llandrillo Menai is committed to actively addressing all forms of discrimination as well as encouraging, supporting and helping all learners and staff to reach their potential.

annog, cefnogi a helpu pob dysgwr ac aelod o staff i gyrraedd ei botensial.

Mae'r Grŵp yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol, cymdeithasol ac ethnig ei staff a'i ddysgwyr. Rydym yn addo trin pob dysgwr ac aelod o staff gyda pharch ac urddas, ac yn ceisio creu amgylchedd dysgu a gweithio cadarnhaol sy'n rhydd o wahaniaethu, bwlio ac erledigaeth.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ymrwymiad uchod ar [wefan y Grŵp](#). Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein gwerthoedd gan sicrhau bod pob dysgwr ac aelod o staff yn ymwybodol ohonynt trwy amrywiaeth o ddulliau, e.e. y [fideo ar werthoedd y Grŵp](#) a ddefnyddir yn ystod y cyfnod cynefino ac a ddangosir yn y derbynfydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

The Grŵp celebrates and values the cultural, social and ethnic diversity amongst our learners and staff. We promise to treat all learners and staff with respect and dignity, and seek to create a positive learning and working environment, free from discrimination, harassment or victimisation.

More information on the above commitment can be found on [the Grŵp's website](#). We take great pride in our values ensuring that all learners and staff are aware of them through a variety of methods, e.g. the [Grŵp values video](#) which is used during the induction period and is played in reception areas at different times of the year.

STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU AR GYDRADDOLDEB 2019-24: ADOLYGU CYNNYDD

EQUALITY STRATEGY AND ACTION PLAN 2019-24: REVIEW OF PROGRESS

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu a Strategaeth pum mlynedd Grŵp Llandrillo Menai ar Gydraddoldeb yn 2019 ac mae'n fframwaith i hyrwyddo a chynnal amgylchedd cynhwysol sy'n cynnig cyfle i bawb gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r strategaeth yn gosod ein hamcanion yn glir:

- Sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, unigolion sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith a'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y coleg.
- Cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol.
- Egluro ein cyfrifoldebau i bobl a nodi sut byddwn yn eu cyflawni.
- Dangos y cysylltiad rhwng ein hamcanion a'n blaenoriaethau cydraddoldeb ehangach.
- Darparu gwybodaeth am ein trefniadau monitro.

In 2019 Grŵp Llandrillo Menai's 5-year Equality Strategy and Action Plan was published, which creates a framework for promoting and maintaining an inclusive environment where everyone can achieve.

- Make equality a reality for people accessing our services, seeking job opportunities and who are currently employed with the college.
- Fulfil our legal responsibilities.
- Inform people of our responsibilities and how we will fulfil them.
- Show how our strategy links to our broader equalities objectives and priorities.
- Provide information about our monitoring arrangements.

Dyma nodau cydraddoldeb cynllun 2019-24:

The equality aims set out in the 2019-24 plan are as follows:

Nod Cydraddoldeb 1 Equality Aim 1	Nod Cydraddoldeb 2 Equality Aim 2	Nod Cydraddoldeb 3 Equality Aim 3	Nod Cydraddoldeb 4 Equality Aim 4
Datblygu arlwy gyffrous a chynhwysol Develop an exciting and inclusive offer	Darparu profiadau cynhwysol a theg i ddysgwyr Provide an inclusive and fair learner experience	Creu amgylchedd gwaith cadarnhaol Create a positive working environment	Gwella'r amgylchedd ffisegol ar ein holl gampysau Improve the physical environment across all of our campuses

Hyd yma mae'r cynnydd yn erbyn y nodau cydraddoldeb hyn wedi bod yn dda, ac isod fe grynhoir y prif gyflawniadau ar gyfer pob nod.

Progress against these equality aims has been good, and the main achievements thus far for each aim is summarised below.

Nod Cydraddoldeb 1: Datblygu arlwy gyffrous a chynhwysol

Mae'r wybodaeth a ddatblygwyd am ddarpariaeth Grŵp Llandrillo Menai yn rhoi manylion y gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr. Prif egwyddor y Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yw y dylai pob person ifanc gael cyfle cyfartal i lwyddo. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i raglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan y Grŵp](#).

Sefydlwyd y Ddeddf er mwyn:

- Gwneud trefniadau ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0 i 25 oed.
- Datblygu proses asesu, cynllunio a monitro integredig a chydweithredol sy'n sicrhau ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol.
- Creu system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyingor ac i ymdrin â phryderon neu apeliadau.

Mae'r termau canlynol yn rhan allweddol o'r cod ADY ac wedi'u sefydlu yn y ddarpariaeth gefnogol a gynigir:

- **Darpariaeth Dysgu Cyffredinol** : Yn rhoi manylion y gefnogaeth sydd ar gael i holl ddysgwyr Grŵp Llandrillo Menai.
- **Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol**: Yn disgrifio'r gefnogaeth sy'n ychwanegol, neu'n wahanol, i'r ddarpariaeth i ddysgwyr eraill o'r un oed.
- **Proffil Un Dudalen** : Yn crynhoi'r holl wybodaeth bwysig am ddysgwr, gan gynnwys y ffordd orau o gefnogi'r dysgwr.
- **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)**: Bydd angen paratoi CDU ar gyfer unrhyw ddysgwyr ag angen a ddynodwyd sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

2023/24 oedd y flwyddyn gyntaf i Grŵp Llandrillo gynnal a datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol. Cyn hynny, o dan gynllun gweithredu graddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector ôl-16, roedd disgwyl i gyfrifoldeb Sefydliadau Addysg Bellach dros Gynlluniau Datblygu Unigol fod yn gyfyngedig.

I gefnogi trafodaethau pontio penodol i bobl ifanc, sefydlodd Grŵp Llandrillo Menai'r Fforwm Pontio ADY

Equality Aim 1: Develop an exciting and inclusive offer

Grŵp Llandrillo Menai has developed a provision offer detailing the support available to learners. The core principle of the Additional Learning Needs (ALN) legislation is that all young people should have equal opportunities to succeed. This legislation applies to both further education and work-based learning programmes. Further information can be found on the [Grŵp's website](#).

The Act was established to:

- Provide a new statutory framework for supporting children and young people with Additional Learning Needs (ALN) from ages 0 to 25.
- Develop an integrated and collaborative process for assessment, planning, and monitoring that ensures early, timely, and effective interventions.
- Create a fair and transparent system for offering information, advice, and resolving concerns or appeals.

The following key terms are central to the ALN code and integrated into the provision service support offer:

- **Universal Learning Provision (ULP)**: Details the support available to all learners at Grŵp Llandrillo Menai.
- **Additional Learning Provision (ALP)**: Describes the support that is additional to or different from what is provided to others of the same age.
- **One Page Profile**: Summarises all important information about a learner, including how best to support them.
- **Individual Development Plan (IDP)**: An IDP must be prepared for any learner with an identified additional learning needs requiring ALP.

The 2023/24 academic year marked the first year that Grŵp Llandrillo Menai maintained and developed Individual Development Plans (IDPs). Previously, under the Welsh Government's phased post-16 implementation, it was expected that Further Education Institutions (FEIs) would have limited

Ôl-16 yn ystod 23/24. Pwrpas y fforwm yw bod yn llwyfan i drafod a rhannu gwybodaeth er mwyn canfod y dewisiadau a'r strategaethau gorau ar gyfer cefnogi pob person ifanc. Mae'r Fforwm wedi helpu Grŵp Llandrillo Menai i gryfhau ei berthynas waith ag awdurdodau lleol, ysgolion, a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod trefniadau pontio hwylus ar gael iddynt.

Mae'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo. Trwy ddatblygu partneriaethau cryf ag awdurdodau lleol, ysgolion, ac asiantaethau arbenigol, mae'r tîm ADY wedi ymroi i hyrwyddo cydraddoldeb, i wella prosesau pontio, ac i sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfleoedd teg a chynhwysol. Trwy gydweithrediad parhaus datblygir strategaethau pwrpasol sy'n gydnaws â'n cenhadaeth i greu amgylchedd lle gall pob unigolyn ffynnu, ni waeth beth fo'i anghenion dysgu ac i ddarparu profiadau dysgu teg a chynhwysol.

responsibility for IDPs.

To support specific transition discussions for young people, Grŵp Llandrillo Menai established the Post-16 ALN Transition Forum during 23/24. The purpose of this forum is to provide a platform for discussing and sharing information to identify the best options and strategies to support each young person. The Forum helped Grŵp Llandrillo Menai strengthen its working relationships with local authorities, schools, and other key stakeholders, ensuring early identification of learners and smooth transition arrangements.

The Additional Learning Needs (ALN) team continues to collaborate closely with external stakeholders to ensure that all learners receive the support they need to succeed. Through building strong partnerships with local authorities, schools, and specialist agencies, the ALN team is committed to promoting equality, enhancing transition processes, and ensuring that every learner with additional needs has access to fair and inclusive opportunities. This ongoing collaboration enables the development of tailored strategies that align with our mission to create an environment where every individual can thrive, regardless of their learning needs and provide an inclusive and fair learner experience.

Nod Cydraddoldeb 2: Darparu profiadau cynhwysol a theg i ddysgwyr

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, sefydlodd y Grŵp fframwaith llesiant cynhwysfawr yn ein rhaglen diwtorialau oedd yn rhoi pwyslais ar weithgareddau'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant. Mae'r rhaglen hon wedi'i chysylltu'n agos â'n calendr cyfoethogi profiadau, gan sicrhau bod ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael sylw trwy gydol y flwyddyn .

Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethon ni ddatblygu 19 pecyn addysgol penodol i anrhydeddu a dathlu dyddiadau arwyddocaol. Ar gyfer pob dyddiad trefnwyd baner i ymddangos ar sgrin y derbynfeydd, poster rhithwir, sesiwn diwtorial 20 munud, a chyflwyniad. Ymhlith y dyddiadau a nodwyd roedd: Mis Hanes Anabledd, Wythnos Anableddau Dysgu, Diwrnod Stephen Lawrence, Diwrnod Dim Goddefgarwch, Diwrnod Gweledd Trawsrywiol.

Yn ystod tymor 2, gyda chefnogaeth y tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr a'r tîm Cydraddoldeb, trefnodd un o'n myfyrwyr stondin ryngweithiol ar gampws Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos. Y bwriad oedd addysgu'r staff a'r myfyrwyr am yr Hijab a rhoi cyfle iddynt wisgo'r benwisg. I gefnogi'r digwyddiad hwn ac i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Hijab y Byd, paratowyd pecyn tiwtorial er mwyn galluogi ac annog staff a myfyrwyr i fod yn fwy ymwybodol o'r digwyddiad.

Yn sgil y cynlluniau hyn, cwblhawyd 20 pecyn o adnoddau addysgol, gan ddangos ein hymdrech ragweithiol i feithrin amgylchedd addysgol cynhwysol ac amrywiol.

Cafodd Rhaglen Llysgenhadon Llesiant newydd ei lansio'n dawel yn ystod tymor 2 ac erbyn diwedd y flwyddyn academaidd roedd 72 o fyfyrwyr y Grŵp wedi cytuno i fod yn Llysgenhadon Llesiant. Roedd tri Swyddog Gweithgareddau Llesiant ar gael i'w cefnogi trwy ddarparu cyfleoedd cwbl gynhwysol i wirfoddoli a chymryd rhan mewn gweithgareddau llesiant (yn y coleg ac yn y gymuned ehangach). Yr aelodau staff hyn oedd hefyd yn arwain y Rhaglen Llysgenhadon Llesiant oedd yn cynnwys adolygiad diwedd blwyddyn i weld beth weithiodd yn dda a pha addasiadau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae cynnig cyffredinol o frecwast am ddim ar gael i staff a dysgwyr ar draws y Grŵp, ac fe'i darperir mewn ffordd sydd ddim yn stigmatiddio. Mae'r staff llesiant ar gael i gyfarfod â'r dysgwyr.

Equality Aim 2: Provide an inclusive and fair learner experience

In the 2023/24 academic year, the Grŵp successfully embedded a comprehensive wellbeing framework within our tutorial programme, emphasising equality, diversity, and inclusion (EDI) activities. This programme is intricately linked to our enrichment calendar, ensuring that our commitment to EDI is reflected throughout the year.

During this period, we developed 19 distinct educational packages to honour and celebrate significant dates, each comprising a reception screen banner, a virtual poster, a 20-minute tutorial session plan, and a presentation. Notable dates included: Disability History Month, Learning Disability Week, Stephen Lawrence Day, Zero Tolerance Day, Trans Visibility Day

During term 2, with the support of Learner Services and the Equality team, a student organised an interactive stall at the Llandrillo Campus, Rhos on Sea, to educate staff and peers about the Hijab and offer them the opportunity to try on the head dress. To support this event and to raise awareness of World Hijab Day, a tutorial resource package was created to enable and encourage staff and students to be more aware of this event.

These initiatives resulted in a total of 20 completed educational resource packages, demonstrating our proactive approach to fostering an inclusive and diverse educational environment.

A new Wellbeing Ambassador Programme had a soft launch during term 2 and as a result by the end of the academic year there were 72 students signed up as Wellbeing Ambassadors across the Grŵp. They were supported by the three Wellbeing Activities Officers who provided fully inclusive opportunities to participate in wellbeing activities and volunteering (both on and in the wider community). These staff led on the Wellbeing Ambassador Programme which included an end of year review to see what worked well and how we can shape it for the future. A universal offer of free breakfast is in place across the Grŵp for staff and learners, in a non-stigmatised way. Wellbeing staff are on hand to meet with learners

A full and varied programme of EDI enrichment events take place throughout the year for both FE and HE learners. In 2023/24 A series of engaging and informative sessions focused on promoting equality, diversity, and inclusion, offering learners a range of opportunities to engage in meaningful discussion via

Cynhelir rhaglen lawn ac amrywiol o weithgareddau'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol y flwyddyn er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr AB ac AU. Yn 2023/24 cynhaliwyd cyfres o sesiynau diddorol a llawn gwybodaeth oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Trwy gyfrwng grwpiau cefnogi, gweithdai, grwpiau tiwtorial a gweithgareddau cafodd y dysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon oedd â'r nod o feithrin amgylchedd dysgu cynhwysol a theg. Dathlu amrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth am faterion pwysig yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant oedd bwriad y gweithgareddau hyn ac roeddent yn amrywio o ddatlu'r Gymraeg a'i diwylliant i ddatlu diwyllianau eraill yn y coleg. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys siaradwyr allanol yn trafod hawliau ac iaith LHDTC+, arddangos gwybodaeth a llyfrau hanesyddol yn y llyfrgelloedd i godi ymwybyddiaeth am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, a phosteri ar waliau i dynnu sylw at Ddiwrnod Stephen Lawrence ac ymrwymadau gwrth-hiliaeth y Grŵp.

Cynhelir calendr o weithgareddau rhyngweithiol i gyfoethogi profiadau dysgwyr ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ac sy'n gysylltiedig â digwyddiadau diwyllianol, dyddiadau pwysig a chyfluoedd i godi ymwybyddiaeth. Caiff hwn ei hyrwyddo ar dudalennau eDrac a chalendr rhyngweithiol y dysgwyr ac mae'n cael ei ddiweddarau a'i hwyluso gan y timau Gwasanaethau i Ddysgwyr a Llesiant.

Mae Dysgu Seiliedig ar Waith yn parhau i roi sylw i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn cylchlythyrau ac fel themâu trawsbynciol mewn adolygiadau.

Data Pontio – Mae GLIM yn arwain grŵp rhanbarthol sy'n gyfrifol am sicrhau bod darparwyr ôl-16 yn defnyddio data pontio gan yr ysgolion i gefnogi dysgwyr i drosglwyddo'n effeithiol o'r ysgol i'r coleg.

Data pontio – Mae gweithgor sy'n cynnwys GLIM, Coleg Cambria a chynrychiolwyr o'r ALI yn datblygu ymhellach ddull cyson o rannu data pontio yng ngogledd Cymru ac o gefnogi'r dysgwyr hynny sy'n trosglwyddo. Mae cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal unwaith bob hanner tymor i drafod cynnydd, datblygiadau, arferion gorau ac astudiaethau achos.

Defnyddir templed safonol gan y Colegau ac fe'i derbynir gan yr Ysgolion un ai trwy e-bost a ddiogelir â chyfrinair neu drosglwyddiad data diogel. Yna mae'r ysgolion yn llenwi'r templed gyda manylion y myfyriwr cyn ei ddychwelyd. Cesglir y data ddwywaith - adeg y Pasg ac ym mis Medi a chaiff ei arddangos ar systemau data mewnol i helpu staff gyda'r broses bontio.

student support groups, workshops, group tutorial sessions and activities aimed at fostering an inclusive and equitable learning environment. These events were designed to celebrate diversity, raise awareness about important EDI issues and ranged from celebrating Welsh language and culture to celebrating different cultures at the college. Activities included external speakers discussing LGBTQ+ rights and language, historical information displayed in libraries to raise awareness of Holocaust Memorial Day and books and wall displays raising awareness of Stephen Lawrence day and the Grŵp's anti racism commitments.

An interactive enrichment and diversity calendar is available for learners and provides details of activities, cultural events, memorial days and awareness raising opportunities. This is promoted on the learners' eDrac pages and on the interactive learner calendar and is updated and facilitated by the Learner Services and Wellbeing teams.

Work Based Learning (WBL) continues to cover EDI in newsletters and during reviews as cross cutting themes.

Transition data - GLLM leads a regional group who are responsible for ensuring that post 16 providers use transition data from school to provide effective transition support to learners as they move from school to college.

Transition data - A working group consisting of GLLM, Coleg Cambria and the LA leads to further develop a consistent North Wales approach of sharing transition data and supporting those learners in transition. Transition data team meetings take place once every half term to discuss progress, developments, best practice and case studies.

A standard template is used which is populated by Colleges with base applicant details and Schools receive either by password protected email or secure data transfer. Schools then complete with student details and return in the same manner. Data is collected in two tranches - at Easter and in September and is displayed on internal data reporting systems for staff to use to assist transition.

Data collected through this process includes:

UCI Number, Free School Meals, Disciplinary (Number of days suspended), Disciplinary (number of occurrences suspended), First Language, Does learner have a medical condition that is life threatening, Does this medical condition require reasonable adjustment/

Mae'r data a gesglir trwy'r broses hon yn cynnwys:

Rhif UCI, Prydau Ysgol am Ddim, Disgyblu (nifer y dyddiau cafodd y dysgwr ei atal), Disgyblu (nifer yr achosion o atal), Iaith Gyntaf, A oes gan y dysgwr gyflwr meddygol sy'n bygwth bywyd, A oes angen addasiad rhesymol / darpariaeth ychwanegol / cymorth ychwanegol ar gyfer y cyflwr meddygol hwn, Plentyn sy'n Derbyn Gofal, Gofalwr Ifanc, Statws ADY, Categori ADY, A oes gan y dysgwr Ddatganiad/LSP/CDU, A yw'r dysgwr yn cael ei gwrsela yn yr ysgol, Rhuglder yn y Gymraeg, Presenoldeb (% presenoldeb/cyfanswm posibl), Cyfradd absenoldeb (% awdurdodedig + anawdurdodedig/cyfanswm posibl), Cyfradd absenoldeb anawdurdodedig (% anawdurdodedig/cyfanswm posibl).

Mae swyddogion pontio yn gweithio gyda Gyrfa Cymru, Ysgolion Uwchradd ac Awdurdodau Lleol i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 11 i wneud y dewisiadau Addysg Bellach cywir drwy gynnal diwrnodau gan y coleg mewn ysgolion, cefnogi nosweithiau rhieni Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, rhoi cyflwyniadau a mynychu Ffeiriau Gyrfa er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyrsiau yn y coleg a'r broses ymgeisio ac i gefnogi'r broses o symud i'r coleg.

Yn 2023/24 penododd GLIM Swyddog Pontio ym maes Iechyd Meddwl, gan ddefnyddio Cronfa Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru i wneud hynny. Bwriad cael Swyddog Pontio ym maes Iechyd Meddwl oedd cefnogi disgyblion Blwyddyn 11 yr oedd gofid am eu Hiechyd Meddwl naill ai trwy sesiynau 1-1 neu ymyriadau mewn grwpiau bach i leihau unrhyw bryderon am ddechrau'r cwrs ac i gefnogi'r broses bontio. Bu'r swydd yn weithredol am 4 mis oherwydd yr angen i recriwtio ac yna hyfforddi aelod newydd o staff. Byddai pob dysgwr a ddefnyddiodd y gwasanaeth hwn wedi cael cymorth i drosglwyddo i'r cynnig o gymorth cyffredinol.

Ym mis Awst 2023, enillodd Grŵp Llandrillo Menai'r dyfarniad Arweinwyr mewn Amrywiaeth. Cynhaliwyd arolygon a grwpiau ffocws gydag uwch reolwyr, staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol i gasglu tystiolaeth oedd yn dangos ein hymrwymiad i fod yn sefydliad cynhwysol a chefnogol. Yn ogystal, mae'r Grŵp wedi ffurfio perthynas â'r Black Leadership Group ac wedi cychwyn ar ein taith i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol. Mae uwch arweinwyr wedi dilyn proses gynefino 10 pwynt y Black Leadership Group a'r rhaglen Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL). Mae'r tîm rheoli gweithredol hefyd wedi dilyn cwrs y

additional provision/ additional support, Looked after Child, Young Carer, ALN Status, ALN Category, Does the learner have a Statement/LSP/IDP, Does the learner access School counselling, Welsh Language Fluency, Attendance (% attended/total possible), Rate of absence (% authorised + unauthorised /Total Possible), Rate of Unauthorised absence (% unauthorised/total possible).

Transition officers work with Careers Wales, Secondary Schools and Local Authority leads to support Year 11 to make right FE choices by hosting college days at schools, supporting Year 11 and Year 10 parent evenings, delivering presentations and attending Career Fairs with the intention of raising awareness of college courses, making applications and supporting college transitions.

In 2023/24 GLLM appointed a Mental Health Transition officer, utilising the WG Mental Health Fund to do so. The aim of the MH Transition officer was to support Year 11 pupils presenting with Mental Health concerns, either through 1-2-1 or small group intervention to minimise any anxieties about starting the course and supporting transition. The role was active for 4 months due to needing to recruit a new member of staff and train that staff member. All learners accessing this support would have been supported to transition for the universal offer of support.

In August 2023, Grŵp Llandrillo Menai was awarded the Leaders in Diversity Award. Surveys and focus groups were undertaken with senior managers, staff, the student body and external stakeholders to collect evidence to recognise our commitment to being an inclusive and supportive organisation. In addition, the Grŵp have affiliated with the Black Leadership Group and have begun our journey to becoming an actively anti-racist organisation. Senior leaders have undertaken the Black Leadership Group's 10 point induction and DARPL's anti racism training for senior leaders. The operational management team have also attended the Black Leadership Group's training entitled 'Being an actively anti-racist leader in Grŵp Llandrillo Menai.'

As part of our affiliation with the Black Leadership Group, further work has been carried out to develop and strengthen our anti-racism action plan. Feedback from the Black Leadership Group has enabled us to set clear goals and objectives to support the development of an anti-racist curriculum and community. In order to support this, teaching staff and

Black Leadership Group: 'Bod yn Arweinydd Gwrth-hiliol gweithredol yng Ngrŵp Llandrillo Menai'.

Yn sgil ein cysylltiad â'r Black Leadership Group, mae gwaith pellach wedi cael ei wneud i ddatblygu a chryfhau ein cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth. Mae'r adborth gan y Black Leadership Group wedi ein galluogi i osod nodau ac amcanion clir i gefnogi datblygiad cymuned a chwricwlwm gwrth-hiliol. Er mwyn cefnogi hyn, mae staff addysgu a rheolwyr wedi bod mewn gweithdai hyfforddi i gynllunio cwricwlwm gwrth-hiliol yn eu meysydd.

Mae'r panel cydraddoldeb wedi derbyn adroddiad newydd o ganlyniad i'r 'Arolwg Dwi'n lawn'. Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau 'baner goch' ar fwlio ac aflonyddu ar rydym bellach yn gallu monitro ymatebion y dysgwyr ar sail eu nodweddion gwarchoddedig. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl llunio adroddiad ar sail cwestiynau Baner Goch ar y Dangosfwrdd i'w fonitro gan y Grŵp. Fodd bynnag, bydd yr arolwg yn parhau i gael ei fonitro gan y panel cydraddoldeb trwy adroddiadau eDRAC a bydd dysgwyr sy'n ateb cwestiynau baner goch yn cael cefnogaeth gan Dîm Lles y Gwasanaethau i Ddysgwyr.

Yn ogystal, yn ystod tymor 2 a thymor 3 blwyddyn academaidd 2023/24, derbyniodd y panel cydraddoldeb adroddiadau ynghylch unrhyw faterion disgyblu y cofnodwyd eu bod yn gysylltiedig â nodwedd warchoddedig neu aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid. Adolygodd y panel cydraddoldeb y data a'r camau a gymerwyd gan yr uwch dimau rheoli er mwyn nodi tueddiadau. O ganlyniad, rydym wedi gallu cyflwyno adnoddau addysgol wedi'u targedu gan gynnwys sesiynau hyfforddi i staff a dysgwyr ar ragenwau a microymosodedd, ynghyd ag ymyriadau gweladwy gan yr arweinyddiaeth sydd bellach yn cael eu cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.

Mae'r coleg wedi datblygu ei ymrwymiad cychwynnol i fod yn Sefydliad sy'n Ymwybodol o Awtistiaeth ac mae bellach yn ehangu ei ffocws i ddatblygu ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth a hyfforddiant yn y maes. Tra bod llawer o dimau staff eisoes wedi ennill dyfarniad Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth, mae'r coleg bellach yn ymestyn ei ymdrechion i gefnogi ystod ehangach o gyflyrau niwroamrywiol.

Mae Mentoriaid Cynhwysiant ar gael ar bob campws i roi cefnogaeth ac arweiniad i ddysgwyr niwroamrywiol. Maent yn gweithio yn unigol gyda dysgwyr i ddatblygu proffiliau sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion unigol ac ar greu strategaethau dysgu personol i'w helpu i gyflawni eu nodau academaidd. Yn ogystal, mae manau tawel wedi'u sefydlu ar y campwsau i

managers have undertaken training workshops to design an anti-racist curriculum within their areas.

The equality panel has received a new report as a result of the learner 'I'm OK survey'. Specifically around the 'red flag' questions on bullying and harassment and are now able to monitor learner responses based on their protected characteristics. It is currently not possible to build a Red Flag question report on Dashboard for Grŵp monitoring, however, the survey will continue to be monitored by the equality panel via eDRAC reports and learners who answer red flag questions supported by the Learner Services Welfare Team.

In addition, during term 2 and term 3 of the 2023/24 academic year, the equality panel received reports regarding any learner disciplinary issues recorded as being related to a protected characteristic or peer on peer sexual harassment. The equality panel reviewed the data and actions taken by the senior leadership teams in order to identify trends. This has enabled the introduction of targeted educational resources including pronoun and microaggressions training sessions for both staff and learners, alongside visible leadership interventions and for these to be proactively planned for the 2024/25 academic year.

The college has evolved from its initial commitment to becoming an Autism Aware Organisation and is now expanding its focus to developing neurodiverse awareness and training. While many staff teams have already achieved Autism Aware accreditation, the college is broadening its efforts to support a wider range of neurodiverse conditions.

Inclusion Mentors are now available at each college campus to support and guide neurodiverse learners. They work one-on-one with students to develop person centred profiles, concentrating on identifying their individual needs and creating personalised learning strategies to help them achieve their academic goals. Additionally, quiet spaces have been established on campuses to enhance the learning experience by offering a calming environment.

gyfoethogi profiadau dysgu trwy gynnig amgylchedd
tawel.

Nod Cydraddoldeb 3: Creu amgylchedd gwaith cadarnhaol

Mae cynllun gweithredu cydraddoldeb a gwrth hiliaeth 23/24 y Grŵp yn parhau ac mae'n cael ei fonitro trwy'r Panel Cydraddoldeb. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn wedi galluogi'r Grŵp i gynllunio ar gyfer gwelliannau strategol ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sefydliad gan gynnwys monitro prosesau recriwtio a chyflogi a gwella'r hyfforddiant sydd ar gael.

Yn dilyn yr achrediad Arweinwyr mewn Amrywiaeth gyda'r National Centre for Diversity ym mis Awst 2023, rydym wedi gweithredu'n unol â'r acronym FREDIE (fairness, respect, equality, diversity, inclusion and engagement) er mwyn sicrhau ein bod yn gwbl gynhwysol ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol yn y broses o ddatblygu arferion a pholisïau newydd.

Mae'r uwch arweinwyr wedi cymryd rhan yn hyfforddiant gwrth-hiliaeth DARPL, gan edrych ar ymrwymiad, camau gweithredu a strategaethau ar lefel uwch. Mae'r dysgu proffesiynol hwn yn edrych ar ddiwylliant sefydliadol, effaith hiliaeth ar lesiant a bywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac ar bolisïau a gweithdrefnau a allai effeithio'n andwyol ar y rhai o gefndiroedd amrywiol.

Mae rheolwyr canol a gweithredol wedi bod mewn gweithdai gwrth-hiliaeth gyda'r Black Leadership Group er mwyn ystyried hiliaeth a'i effaith ar yr holl unigolion dan sylw - y dioddefwyr, y troseddwr a'r bobl sy'n ei weld yn digwydd. Rhoddodd yr hyfforddiant sylw hefyd i bwysigrwydd taith wrth-hiliaeth y sector ôl-16, gan gynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n genedl wrth-hiliol erbyn 2030.

Yn olaf, heriwyd y rheolwyr i ystyried sut y gallent gefnogi eu timau o fod yn weithredol wrth-hiliol, i wrthwynebu hiliaeth ac i gefnogi datblygiad cwricwlwm gwrth-hiliaeth mewn modd a oedd yn berthnasol i'w meysydd pwnc.

Pan fo polisïau'n cael eu hadolygu cynhelir asesiad trylwyr o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod pob polisi'n briodol a chaiff unrhyw ddiwygiadau eu prosesu trwy ymgynghoriadau addas. Fel hyn mae tegwch a chydaddoldeb yn cael eu gwella yn y sefydliad. Mae prosesau cadarn i asesu'r effaith ar gydraddoldeb wedi arwain at datblygiadau cadarnhaol mewn ysgrifennu polisïau cynhwysiant gan awduron. Mae tîm cydraddoldeb y Grŵp yn gweithio'n agos gydag awduron polisïau i sicrhau bod newidiadau'n rhesymol, ac i feithrin cydraddoldeb a gwella cysylltiadau cadarnhaol.

Equality Aim 3: Create a positive working environment

The Grŵp continues to have and monitor, via the Equality Panel, the implementation of an equality and anti racism action plan for 23/24. These action plans have enabled the group to plan for strategic enhancements for equality, diversity and inclusion within the organisation including the monitoring of recruitment and employment processes and an enhanced training offer.

Following accreditation as Leaders in Diversity with the National Centre for Diversity in August 2023, we have implemented the FREDIE (fairness, respect, equality, diversity, inclusion and engagement) acronym in order to ensure we are fully inclusive and engage with all relevant stakeholders in the process of developing new practices and policies.

Senior leaders have taken part in the DARPL Senior Leader Series which unpicks anti-racism, exploring commitment, actions and strategy at senior level. This professional learning looks at organisational culture, the impact of racism on the wellbeing and lives of Black, Asian and other Minority Ethnic people and at policies and procedures that may adversely affect those from diverse backgrounds.

Middle and operational managers have attended anti racism training workshops with the Black Leadership Group which considered racism and its effects on all individuals involved- the victim, perpetrator and observers. The training also highlighted the importance of the anti racism journey for the post 16 education sector, including the Welsh Government commitment to Wales becoming an anti racist nation by 2030. Finally, managers were challenged to consider how they may support their teams to become actively anti racist, to challenge racism and to support the development of an anti racist curriculum, relevant to their subject areas.

When policies are reviewed, a robust equality impact assessment activity is undertaken to ensure all policies are appropriate and any necessary amendments are processed through suitable consultation, thus enhancing fairness and equality within the organisation. Robust equality impact assessment processes have seen positive developments in inclusive policy writing by authors. The Grŵp equality team works closely with policy authors to ensure that amendments are reasonable whilst fostering equality and enhancing positive relations.

A wide variety of relevant training opportunities have been made available to staff, including:

- Equality & Diversity

Darparwyd amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi perthnasol i staff, gan gynnwys:

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rhagfarn Ddiarwybod
- Gwrth-hiliaeth
- Diogelu
- Rheoli Ymddygiad Dysgwyr
- Cyfathrebu Effeithiol
- Ymdrin â sefyllfaoedd anodd
- Gweithio'n effeithiol mewn tîm
- Gwytnwch
- Llesiant Meddyliol
- Dulliau Adferol
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Ymwybyddiaeth o'r Menopos
- Micromosodiadau

Mae'r Hwb Iechyd ar Borth y Grŵp yn dal i fod ar gael i staff ac mae'n cael ei gynnal a'i ddiweddarau'n rheolaidd gan Care First a Caer Health.

Mae aelodau'r Tîm Polisi wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws er mwyn cysylltu â staff a monitro tegwch fel a ganlyn:

- Y Gwasanaethau Academaidd: 15 grŵp ffocws
- Y Gwasanaethau Corfforaethol :14 grŵp ffocws
- Coleg Llandrillo: 2 grŵp ffocws
- Coleg Menai a Meirion Dwyfor: 16 grŵp ffocws

Mae'r Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau i'w weld ar [ein gwefan](#). Cyhoeddir yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau nesaf ym mis Mawrth 2025. Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau oedd 14.55%, ac mae hyn ychydig yn uwch nag ym mis Mawrth 2022, sef 14.43%. Wrth gymharu tâl cyfartalog yr awr, mae cyflog cyfartalog merched 10.89% yn is na dynion. Mae hyn 0.66% yn uwch nag yn 2021. Merched sydd mewn 53.2o'r swyddi uchaf eu tâl (54.6% yn 2022) a 73.5% (72.1% yn 2022) o'r swyddi isaf eu tâl. 62% yw canran staff benywaidd y Grŵp. Felly, mae merched yn dal wedi'u gorgynrychioli yn y ddau chwarter isaf a heb gael eu cynrychioli'n ddigonol yn y 2 chwarter uchaf. Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau bod holl swyddi'r Grŵp yn cefnogi ac yn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Cytunwyd ar y camau canlynol i ddatblygu cyfleoedd pellach ar draws y Grŵp (mae'r camau hyn i'w gweld yn yr adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau y ceir dolen iddo uchod.)

Mae nifer y staff sydd wedi rhannu gwybodaeth am eu hethnigrwydd â ni wedi cynyddu i bron i 64% wrth i ni barhau â'r nod o gael cynifer o staff â phosibl i rannu eu hethnigrwydd â ni ar ein system AD (MyView). Mae

- Unconscious Bias
- Anti-Racism
- Safeguarding
- Learner Behaviour Management
- Effective Communication
- Dealing with difficult situations
- Working as an effective team
- Resilience
- Mental Wellbeing
- Restorative Approaches
- Mental Health First Aid
- Menopause Awareness
- Microaggressions

The Health Hub continues to be available to staff on the Grŵp Portal, and is regularly maintained with recent updates on Care First and Caer Health.

Members of Tîm Polisi have undertaken focus groups to engage with staff and monitor fairness as follows:

- Academic Services: 15 focus groups
- Corporate Services: 14 focus groups
- Coleg Llandrillo: 2 focus groups
- Coleg Menai & Meirion Dwyfor: 16 focus groups

The March 2023 Gender Pay Gap Report can be found on [our website](#). The next Gender Pay Gap Report will be published in March 2025. The median gender pay gap was 14.55%, this is slightly higher than in March 2022, 14.43%. When comparing mean (average) hourly pay, women's mean hourly pay is 10.89% lower than men's. This is 0.66% higher than in 2021. Women occupy 53.2% of the highest paid jobs (54.6% in 2022) and 73.5% (72.1% in 2022) of the lowest paid jobs. The proportion of female staff within the Grŵp is 62% (62%). Females are therefore still overrepresented in the 2 lower quartiles, and under-represented in the 2 upper quartiles. The Grŵp is committed to ensuring that all roles across the Grŵp support and promote gender equality. Actions have been agreed to develop further opportunities across the Grŵp (the actions can be seen in the gender pay gap report linked above).

The number of staff who have shared their ethnicity with us has increased to nearly 64% as we continue to aim towards having as many staff as possible opting to share their ethnicity with us on our HR system (MyView). Unknown information for whether staff have a disability or not has been reduced from 63.2% to 45.2% in the last academic year and a reduction for staff religious status from 52.7% to 44.1%. The Grŵp have made some updates to the HR system which is hoped to support in increasing how many staff share their equality data with us.

Staff recognition: Terminal Illness and miscarriage/fertility are being considered as additional

gwybodaeth anhysbys ar gyfer p'un a oes gan staff anabledd neu beidio wedi gostwng o 63.2% i 45.2% yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf ac wedi gostwng o 52.7% i 44.1% ar gyfer statws crefyddol staff. Mae'r Grŵp wedi gwneud rhai diweddariadau i'r system AD a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu i gynyddu faint o staff sy'n rhannu eu data cydraddoldeb â ni.

Cydnabod staff: Rydym yn ystyried ychwanegu adrannau ar salwch terfynol a cholli baban/ffrwythlondeb i'r polisi lechyd a Llesiant presennol. Cwblhawyd hyfforddiant ar y menopos ac mae hyn bellach yn rhan o'n cynllun hyfforddi blynyddol. Mae'r Grŵp Defnyddwyr Llesiant Staff wedi sicrhau cyllid ar gyfer Cynrychiolwyr Llesiant a Darparwyr Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl ac mae'n parhau i drefnu gweithgareddau Llesiant ledled y Grŵp. Mae'r Grŵp wedi cadarnhau ei drydydd diwrnod gwirfoddoli.

Y Prosiect Ymwybyddiaeth Llesiant: Mae'r Grŵp Defnyddwyr Llesiant Staff bellach yn edrych ar ddulliau cynaliadwy o hyfforddi, datblygu a chefnogi Cynrychiolwyr Lles. Mae'r Grŵp yn trefnu gweithgareddau i gefnogi'r Strategaeth Llesiant i Staff a Dysgwyr.

sections to the current Health & Wellbeing Policy. Menopause training has been completed and is now part of our annual training plan. The Staff Wellbeing User Group has secured funding for Wellbeing Rep, Mental Health First Aiders and continues to arrange wellbeing events across the Grŵp. The Grŵp has confirmed its third volunteering day.

WellAware project: The Staff Wellbeing User Group is now looking at sustainable ways to train, develop and support wellbeing Reps. The Group drives activity to support the Staff and Learner Wellbeing Strategy.

Nod Cydraddoldeb 4: Gwella'r amgylchedd ffisegol ar ein holl gampysau

Mae'r panel cydraddoldeb yn monitro unrhyw anfanteision posibl y gall unigolion eu profi yn y Grŵp o ganlyniad i anabledd ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar brosiectau cyfalaf/ystadau. Lle gall dysgwyr neu staff brofi anawsterau hygrychedd gydag ystafelloedd/lleoedd, caiff eu hanghenion eu hadolygu gan dimau Gwasanaethau i Ddysgwyr, Ystadau, a Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd y Grŵp a gall addasiadau rhesymol gael eu cynnig.

Mae'r timau Ystadau a Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd (SHE) wedi gwneud nifer o addasiadau ffisegol ar gyfer dysgwyr, staff ac ymwelwyr yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys parhau i logi cyfleusterau toiled dibyniaeth fawr, creu cyfleusterau toiled dibyniaeth fawr newydd ar gampysau'r Rhyl, Llandrillo-yn-rhos a Bangor, gosod toiledau symudol ychwanegol, a gosod blociau dros dro gyda rampiau mynediad yn Llandrillo-yn-Rhos a Glynllifon. Yn ogystal, gwnaed nifer o addasiadau ar gampws Celf Parc Menai oedd yn cynnwys troi bloc o doiledau'n doiled i'r anabl, darparu mannau parcio ychwanegol i'r anabl, darparu unedau agor drysau ychwanegol a ramp mynediad a drysau mynediad awtomatig.

Mae gan y Grŵp 50 o gadeiriau achub ar draws ei safleoedd. Er mwyn galluogi staff i gefnogi unigolion i ddefnyddio'r cadeiriau hyn yn briodol a thrwy hynny allu gwacáu adeiladau'r campysau'n ddiogel mewn argyfwng, cynhaliwyd pedair sesiwn hyfforddi yn ystod blwyddyn academiaidd 2023/24 ar draws dau gampws. Roedd 20 aelod o staff yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi hyn.

Equality Aim 4: Improve the physical environment across all of our campuses

The equality panel monitors any possible disadvantages that individuals may experience as a result of a disability across the Grŵp and receives regular updates on capital/estates projects. Where learners or staff may experience accessibility difficulties with rooms/ spaces, their needs are reviewed by the Grŵp's Learner Services and Estates, Safety, Health and Environment teams and reasonable adjustments may be proposed.

The Estates and Safety, Health and Environment (SHE) teams have made a number of physical adaptations for learners, staff and visitors during this reporting period, including continued hire of high dependency toilet facilities, creation of new high dependency toilet facilities at Rhyl, Rhos and New Bangor campuses, additional ambulant toilets, installation of temporary accommodation blocks with access ramps at Rhos and Glynllifon. In addition, a number of modifications were made at Parc Menai Arts campus including conversion of a toilet block to become a disabled toilet, additional disabled parking bays, additional door hold open units, access ramp and actuated access doors.

The Grŵp has 50 Evac chairs spread across campus sites. To enable staff to support individuals to use these chairs appropriately and thus ensure safe evacuation of campus buildings in the event of an emergency, 4 training sessions were held during the 2023/24 academic year across 2 campuses. These training sessions were attended by a total of 20 staff.

CYFRADDAU LLWYDDO ADDYSG BELLACH

FURTHER EDUCATION SUCCESS RATES

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Cymharydd Cenedlaethol 2023/24 wedi'i gyhoeddi. Mae cymariaethau isod wedi'u gwneud yn erbyn Cymharydd Cenedlaethol 22/23.

Mae cyfraddau llwyddiant bron pob un o'r proffiliau'n uwch na phroffiliau 22/23 y Cymharydd Cenedlaethol ac mae canlyniadau'r mwyafrif un ai'n cyfateb neu'n uwch na chyfartaledd y Grŵp. Cyflawnodd plant sy'n derbyn gofal, 85+ (dysgwyr y mae eu presenoldeb yn is na 85%), a'r rhai sy'n cael cymorth gan fentor dysgu gyfraddau llwyddiant a oedd yn is na chyfartaledd y Grŵp.

Y categorïau nodedig o ddysgwyr sy'n cyflawni'n uwch na'r Cymharydd Cenedlaethol o 78% yw:

- Merched - 81.3% (+3.3% o gymharu â'r CC)
- Bechgyn - 80.7% (+2.7% o gymharu â'r CC)
- Rhyweddau eraill - llwyddiant o 86.7%. Mae'r niferoedd sy'n uniaethu fel rhywedd arall wedi cynyddu o 50 i 75.
- Yn derbyn Cymorth Dysgu Ychwanegol, heb CDU 82.8% (4.8% yn uwch na'r CC ar gyfer 22/23 a 3.8% yn uwch na chyrrhaeddiad Cymorth Dysgu Ychwanegol 22/23 y Grŵp).
- Siaradwyr Cymraeg Rhugl - 82.9% (4.9% yn uwch na'r CC ar gyfer 22/23)
